**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1356
Ein cyf/Our ref LW/01413/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

02 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf ynghylch deiseb P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477.

Roeddwn yn drist iawn o glywed am farwolaeth Mr Rogers ac mae fy meddyliau a'm cydymdeimlad yn mynd allan at ei deulu.

Mae Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) wedi llunio adroddiad i ymchwilio i wrthdrawiadau ac achosion agos yr adroddwyd amdanynt yn y safle hwn. Rydym wedi ymrwymo i raglen o fesurau tymor byr a chanolig ar y gyffordd yn 2023/24.

Mae SWTRA wedi cael cyfarwyddyd i gyflwyno'r mesurau tymor byr canlynol cyn gynted â phosibl.

- Arwyddion, marciau ffordd ac efallai gwneud newidiadau bach i gynllun cyffyrdd i wella gweledедd.
- Cyflwyno gwaharddiadau tro pedol ar y gyffordd.

Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, mae SWTRA wedi codi nifer o arwyddion "Gyrrwch yn Ddiogel" yng nghyffiniau'r gyffordd. Rydym wedi rhannu dyluniad yr arwyddion hyn gyda Chyngor Sir Penfro er mwyn iddynt allu eu hystyried nhw hefyd ar gyfer yr A4075 y maent yn gyfrifol amdani.

Yn y tymor canolig ac yn dilyn cyfnod o fonitro, byddwn yn asesu addasrwydd a gofynion gorfodi cyfyngiad cyflymder ar y rhan hon ac yn darparu achos busnes i gyflwyno signalau traffig.

Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi canllawiau newydd ar osod terfynau cyflymder yng Nghymru, a allai helpu i ddelio â chyflymder amhriodol mewn lleoliadau peryglus fel cyffyrdd, nad yw'r canllawiau cyfredol yn eu cwmpasu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhaid ystyried pob cynllun ffordd yng Nghymru yn y dyfodol yn unol ag argymhellion adroddiad yr Adolygiad Ffyrdd. Ar hyn o bryd, y bwriad yw cyflwyno newidiadau ar raddfa fach cyn ymrwymo i fesurau peirianneg mwy er mwyn lleihau defnydd tir ar gyfer priffyrdd yn y dyfodol, lleihau allyriadau carbon, annog pobl i newid eu dulliau teithio a lleihau dibyniaeth ar geir preifat.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change